Magi paid â gofyn pam does dim llythyr yn y post
Mae 'na wyneb bach wrth ffenest fach ac eira ar y rhos
Gwelwyd hol olwynion ar yr eira gwyn,
Gwelwyd corff disymud ar wyneb du y llun
Mae golau aur yn arllwys o ddrws agored cul,
Gan dorri'r nos fel cyllell, fel gweddi ar y Sul.

Magi paid â cherdded mwy drwy strydoedd ocr y dre,
Mae ’na awel lom yn dod o’r cwm yn siglo sail y lle.
Clywyd ci yn cyfarth, fel angel angau du,
Torwyd ffenest rhywle, daeth dychryn dwfn imi
Yn rhy hwyr ddaeth y bore i achub un o’r criw
Fe hwyliodd long y bore 'ma, heb gapten wrth y lliw

Magi paid â sefyll mwy dan 'olau coch y stryd,
Fe ddaw gole gwyn i'th olchi'n wyn a newid gwedd dy fyd;
Mae dy stafell wely yn gwmws fel y bu,
Mae dy gan yn adlais yn sibrwd drwy y tŷ.
Dwy’n anfon atat barsel, fel anrheg fach iti
I ti gael pryni docyn, i’th gario nôl imi

Magi, paid byth a throi yn ôl
Magi, 's dim mwg o'r ffatri nawr.
Magi, mae Dadi ar y dôl.

© Geraint Griffiths 2001